

**COFNODION CYFARFOD PWYLLGOR AMCANION CYFFREDINOL A  
CHYNLLUNIO CYNGOR TREF BAE COLWYN A GYNHALIWDYD YN YR  
YSTAFELL BWYLLGOR, NEUADD Y DREF, FFORDD RHIW, BAE  
COLWYN, NOS FAWRTH, 2<sup>IL</sup> CHWEFROR 2016 AM 6.30 P.M.**

**YN BRESENNOL:** Cynghorydd N. Bastow (Cadeirydd)  
Cynghorwyr W Bagnall, Mrs G. Baker, Mrs L. Edwards, R.  
Foreman, Mrs L. Griffiths, Mrs M. Jones, J. Pearson (Warden  
Coed), S. Williams.

**SWYDDOG:** Mrs C J Earley, Clerc y Dref

**HEFYD YN BRESENNOL:** Cynghorydd Mrs H. Meredith

**316/15 Croeso ag Ymddiheuriadau am Absenoldeb:**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Y Maer, Cynghorydd  
Mrs S. Roy a'r Cynghorwyr C. Perry a C. Wood.

**317/15 Datgan Cysylltiadau:**

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiadau personol  
a / neu gysylltiadau sy'n rhagfarnu, a natur y fath gysylltiadau. Ni ddatganwyd  
dim.

**318/15 Cofnodion:**

*Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar  
12<sup>fed</sup> Ionawr 2016 a'u llofnodi i fod yn adroddiad cywir.*

**319/15 Ceisiadau am Drwyddedau:**

*Penderfynwyd newid trefn yr agenda er mwyn cymryd yr eitem yma yn  
gynnar oherwydd presenoldeb y Cynghorydd Mrs H. Meredith.*

Ar wahoddiad y Cadeirydd, anerchwyd y Pwyllgor gan y Cynghorydd  
Meredith. Dywedodd wrth yr aelodau bod y trigolion oedd yn byw yng  
nghyffiniau'r Sw Mynydd Cymreig wedi datgan pryder am y cais ddiweddar  
am drwydded newydd i'r caffi yn y sw (a weinyddir gan drydydd parti).  
Roedd y cais ar gyfer dramâu, ffilmiau, cerddoriaeth a dawnsfeydd byw,  
cerddoriaeth a recordiwyd, lluniaeth hwyrnos a chyflenwi alcohol hyd at  
hanner nos neu 1am. Roedd y trigolion yn poeni am yr effaith gallai hyn cael  
ar yr anifeiliaid yn y sw, ac y byddent yn cael eu haflonyddu gan  
weithgareddau / sŵn, hwyr yn y nos gan efallai achosi iddynt ddiodef straen  
diangen.

Atgoffwyd yr aelodau gan y Clerc bod y rhestr trwyddedau yn cael ei anfon at  
y Cyngor er gwybodaeth yn unig (nid yw'r Cyngor Tref yn gorff y dylid  
ymgyngori ag ef yn statudol) a dylai aelodau lleol annog unrhyw drigolion  
sy'n byw yn union yng nghyffiniau'r sw i ysgrifennu at yr Adran Drwyddedu i  
ddatgan eu pryderon.

*Penderfynwyd nodi gweddill y ceisiadau am drwyddedau.*

### **320/15 Materion yn Codi o Gofnodion Blaenorol:**

**a. Cofnod 293/15(c) – Ymgynghoriad ar Fframwaith Canlyniadau Iechyd Cyhoeddus**

Cyflwynodd y Clerc nodiadau'r Cynghorwyr Mrs G. Baker a Mrs S. Roy a fu'n bresennol yn y cyfarfod.

*Penderfynwyd diolch i'r Cynghorywr Baker a Roy am eu hadroddiad.*

**b. Cofnod 297/15(a) – Hysbysfyrddau:**

Cyflwynwyd adroddiadau ar lafar gan yr aelodau am gyflwr yr hysbysfyrddau yn eu wardiau hwy, yn dilyn yr archwiliadau chwarterol diweddar.

Fe nodwyd bod styffylau a phinnau wedi cael eu symud o'r hysbysfwrdd yn Rhodfa Colwyn, Llandrillo yn Rhos ac mi fyddai'n elwa o got o baent a'i dacluso. Cafwyd trafodaeth yn dilyn awgrym y dylid rhoi gorchudd gwydr ar yr hysbysfwrdd er mwyn cyfyngu ar ei ddefnydd (yn aml bydd posteri sy'n ymddangos yn berthnasol a digwyddiadau mewn mannau eraill). Fodd bynnag, fe nodwyd bod holl hysbysfyrddau eraill y Cyngor yn agored. Fe ellir monitro'r defnydd yn rheolaidd gan yr Aelodau lleol a symud unrhyw bosteri anaddas neu hen.

*Penderfynwyd gofyn i'r Clerc trefnu i'r hysbysfwrdd yn Rhodfa Colwyn cael ei ail- baentio / trwsio gan y contractwr arferol (Pinewood).*

**c. Cofnod 301/15 –Hysbysiad am Gyfarfod Cyhoeddus:**

Cadarnhaodd y Cynghorydd Mrs M. Jones ei bod wedi mynychu'r cyfarfod cyhoeddus parthed y bwriad i adeiladu anheddu yn Chwarel Plas Gwilym, Llysfaen. Y prif bryderon oedd y bwriad i symud y bont a bod y ffyrdd sy'n arwain at y safle yn anaddas (yn cynnwys Lôn Peulwys). Mynegwyd pryderon hefyd am y ffaith nad oedd Dŵr Cymru yn hapus gyda'r trefniadau arfaethedig i ddraenio'r dŵr wyneb. Fe anogwyd y trigolion i ysgrifennu at y Swyddog Cynllunio fel unigolion i ddatgan eu pryderon.

Fe nodwyd bydd y cais hwn yn cael ei ystyried ynghyd ag eraill yn y man priodol ar yr agenda.

### **321/15 Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC):**

Cyflwynodd y Clerc yr ohebiaeth ganlynol oddi wrth GBSC i'w ystyried:

**a. Neges e-bost gan Judi Greenwood, Rheolwraig Prosiect Menter Tirlun Treftadaeth, mewn perthynas â phrosiectau arfaethedig VVP ar gyfer 3<sup>ydd</sup> cam 'Pop Up' Bae Colwyn, yn ceisio cadarnhad o gefnogaeth barhaol y Cyngor Tref i'r prosiect hwn.**

Fe nodwyd bod nifer o brawf masnachwyr wedi symud ymlaen i gael eiddo mwy parhaol ac fe dderbyniwyd adborth cadarnhaol.

***Penderfynwyd cadarnhau cefnogaeth barhaol y Cyngor Tref i'r prosiect.***

- b. Cyflwynodd y Clerc copi o rybudd yn dileu maes parcio Ffordd Lansdowne o Orchymyn Mannau Parcio Oddi ar y Stryd, fel darpariaeth at ailddatblygu'r safle ar gyfer swyddfeydd newydd CBSC.

***Penderfynwyd derbyn y rhybudd a'i nodi***

- c. Cyflwynodd y Clerc, er gwybodaeth, datganiad o anesmwythyd a dderbyniwyd am sbwriel a chafodd ei anfon ymlaen (gan GBSC) at ERF.

Fe nodwyd bod llawer o'r sbwriel y cyfeiriwyd ato yn yr ohebiaeth, ar dir Network Rail ac nad oedd gweithiwr glanhau strydoedd y Cyngor Sir yn gallu cael mynediad at y tir. Roedd y tywydd garw yn ddiweddar (gwyntoedd cryfion) yn ddi-os wedi ychwanegu at y broblem.

***Penderfynwyd ateb yr un oedd yn cwyno i ddweud wrtho am hyn ac awgrymu y dylai hefyd cysylltu â Network Rail am ei bryderon.***

**322/15 Cyfes Darlithoedd Cyhoeddus Iechyd a Llesiant:**

Cyflwynodd y Clerc gwybodaeth ac adroddiad byr ysgrifenedig gan y Maer yn dilyn y ddarlith fwyaf diweddar dan yr enw "Cyd-weithio ar Iechyd: Manteision Enfawr Dull Iach o Fyw". Rhoddodd y Clerc adroddiad byr ar lafar, yn crynhoi canlyniadau astudiaeth 35 mlynedd yng Nghaerffili ar effaith y 5 ymddygiad iechyd (peidio ysmegu, pwysau isel ar y corff / BMI, ymarfer corff yn gyson, diet iachus a lefel isel o yfed alcohol) ar iechyd hirdymor a llesiant ac ar atal heintiau. Mae Byw yn Iach yng Nghymru yn herio pobl Cymru i fabwysiadu un ymddygiad iechyd ychwanegol allan o'r 5 a restrwyd a'i mewnosod yn eu ffordd o fyw, ac yna un arall, yn y gobaith bydd hyn yn gwella iechyd hirdymor a llesiant pobl ar draws Cymru. Gweler [healthylivingwales.co.uk](http://healthylivingwales.co.uk) am fwy o wybodaeth.

***Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a'i nodi.***

**323/15 Un Llais Cymru (ULIC):**

Cyflwynodd y Clerc adroddiad gan y Cynghorydd Mike Harriman, cynrychiolydd ULIC ar Grŵp Cyfeirio Randeiliaid Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, yn ymdrin â'r Strategaeth newydd ar Ofal Cychwynnol, diweddariad ar Gydraddoldeb ac adroddiad gan Deloitte ar y posibilrwydd o wneud arbedion mewn effeithiolrwydd.

***Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a'i nodi.***

**324/15 Pen-blwydd y Frenhines yn 90 mlwydd oed:**

Cyflwynodd y Clerc copi o'r canllawiau a ddosbarthwyd i bob Cyngor am ddathlu pen-blwydd y Frenhines trwy danio coelcerthi. Fe nodwyd bod y goelcerth flaenorol (ar Benmaenrhos) wedi cael ei symud rhai blynnyddoedd yn ôl oherwydd y peryglon o'i oleuo.

*Penderfynwyd derbyn a nodi'r wybodaeth am y goelcerth.*

**325/15 Gohebiaeth Arall:**

Fe nodwyd bod yr eitem ganlynol o ohebiaeth ar gael gan y Clerc ar gais:

- a Cofnodion cyfarfod Cymdeithas Trigolion Hen Golwyn (y Dwyrain) a gynhaliwyd ar 13eg Ionawr.

**326/15 Cynllunio:**

- a. Cyflwynodd y Clerc crynodeb o'r ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd gan GBSC yn ystod y tair wythnos diwethaf i'w ystyried.

*Penderfynwyd cyflwyno sylwadau ar y ceisiadau hyn fel y maent yn ymddangos yn Atodlen 'A' sydd gyda hwn.*

- b. Cyflwynodd y Clerc copi o'r Penderfyniadau Cynllunio a wnaed yn ddiweddar gan GBSC, er gwybodaeth.

Daeth y Cyfarfod i ben am 7.20 pm

..... Cadeirydd